Yn Eden, cofiaf hynny byth

Caneuon Ffydd: Rhif 522

Yn Eden, cofiaf hynny byth,
bendithion gollais rif y gwlith;
    syrthiodd fy nghoron wiw.
Ond buddugoliaeth Calfarî
enillodd hon yn ôl i mi:
    mi ganaf tra bwyf byw.

Ffydd, dacw'r fan, a dacw'r pren
yr hoeliwyd arno D'wysog nen
    yn wirion yn fy lle;
y ddraig a 'sigwyd gan yr Un,
cans clwyfwyd dau, concwerodd un,
    a Iesu oedd efe.

WILLIAM WILLIAMS, 1717–91

MYFYRDOD

Dyna le braf a bendigedig oedd yn Eden! Popeth yn hardd, yn berffaith ac yn gwbl rydd o unrhyw lygredd. Dyma'r gwynfyd y gosodwyd dyn ynddo ar y cyntaf; Adda ac Efa wedi eu creu 'ar lun a delw Duw', yn frenin ac yn frenhines gyda'r oll yn ddarostyngedig iddyn nhw cyn belled ag y byddan nhw'n parhau'n ufudd i reolaeth Duw fel Brenin ar y cyfan. Dyna le i'w gofio am byth.

Ond doedd Williams Pantycelyn ddim yno, meddech chi; sut medr ef gofio am y lle hwnnw? Oherwydd bod cwymp Adda ac Efa (Gen. 3) wedi effeithio ar bob un person a ddaeth i'r byd hwn ar eu holau, a bod gennym ni atgof am y gwynfyd hwn yr oedd Duw yn ei fwriadu ar ein cyfer yn aros yn ddyhead ynom. Disgrifia Pantycelyn effeithiau'r cwymp arno ef yn bersonol: 'bendithion gollais rif y gwlith; syrthiodd fy nghoron wiw'. Mae coron awdurdod dyn dros y greadigaeth yn cael ei cholli yn ei anufudd-

dod i Dduw. Daw popeth oedd gynt o dan ei awdurdod o dan felltith wrth i'w berthynas â Duw gael ei thorri. Yn ogystal â cholli'r bendithion hyn, daw dau beth arall i'r golwg yn ei sgil. Y cyntaf ydy bod dyn trwy ei anufudd-dod i Dduw a'i ddarostyngiad i awgrymiadau'r sarff, yn fforffedu ei reolaeth o'r ddaear i'r sarff ei hun. Satan bellach yw 'tywysog y byd hwn' (Ioan 12:31), a chanddo awdurdod dros farwolaeth, afiechyd, anghytundeb a dinistr hefyd – pethau nad oeddent yn rhan o greadigaeth wreiddiol Duw.

Gellid dweud ei bod hi'n edrych yn go ddu ar ddynolryw, ond mae ail beth yn cynnig gobaith i ni. Yng nghanol trasiedi y gyfres hon o ddigwyddiadau, mae Duw ar waith yn adfer, ac fe addewir cynllun ar gyfer ennill y bendithion hyn a gollodd dyn a dychwelyd ei ystâd a'i goron iddo: 'bydd ef yn ysigo dy ben di . . .' (Gen. 3:15) yw'r ddedfryd ar y sarff. 'Y ddraig a 'sigwyd gan yr Un', medd Williams; yn wir, 'clwyfwyd dau', ac mae'r addewid o hynny yn yr adnod hon. Ond mae Iesu wedi gosod Satan dan draed yn ei waith ar y groes ac mae'r addewid yma hefyd y bydd yr hil ddynol yn gorchfygu'r Un Drwg yn gyfan gwbl yn y diwedd. 'Buddugoliaeth Calfarî enillodd hon yn ôl i mi'; mae'r goron bellach yn cael ei chynnig yn ôl inni gan Iesu Grist. Lle bu Adda yn anufudd a dwyn melltith inni, fe ddaeth Iesu 'â phob bendith ysbrydol yn y nefolion leoedd' (Eff. 1:3) yn ôl i ni trwy ei ufudd-dod a'i aberth dros holl bechod y byd.

Rhyfeddwn fel mae'r addewid hwn yn cael ei adeiladu i mewn i hanes y cwymp ei hun, ac fel mae'r Newydd Da am Iesu Grist yn cael ei gyhoeddi am y tro cyntaf yn yr adnod hon yn Genesis, sydd yn thema yn yr emyn hwn gan Williams Pantycelyn. Mae'r addewid cyntaf hwn o Feseia a Gwaredwr yn un o'r datganiadau mwyaf manwl o'r Efengyl a gawn ni yn unrhyw le.

GWEDDI

O Dduw Dad, mae dy galon mor amlwg yn curo drosom o'r cychwyn cyntaf. Rhyfeddaf at dy addewid o Waredwr pan oedd hi'n edrych yn ddrwg iawn arnom. 'Mi ganaf tra bwyf byw' am iti gyflawni dy addewid, a hynny trwy aberth mawr: 'cans clwyfwyd dau, concwerodd un, a Iesu oedd efe.' Amen byth mwy.